# **Cylchdaith Rhoscolyn** (SH271751)

Gweler y map isod

## 1. Maes Parcio Traeth Borthwen – Traeth Llydan


Cerddwch yn ôl i fyny'r ffordd am 75 llath, a throwch tua'r dde wrth arwydd y Llwybr Troed Arfordirol. Mewn 0.2 milltir trowch tua'r chwith yn ymyl yr arwydd llwybr troed. Ewch drwy'r gât mochyn a syth ymlaen heibio tŷ o'r enw Cae Llyn, i fyny'r rhodfa ac allan drwy'r gât ac yna troi tua'r dde. 0.3 milltir. Cadwch tua'r chwith yn y gyffordd traciau 0.5 milltir. Ewch drwy'r gât mochyn a dilyn y Llwybr Troed Arfordirol at y pentir. Parhewch i fynd ar hyd y llwybr hwn gan gadw at ymyl y môr. Cerddwch o amgylch y pentir gan edrych ar olygfeydd y môr a mynd i gyfeiriad y maes carafannau ond yn cadw at yr arfordir. Ymhen 1.1 milltir mae gât mochyn a thair pont droed. Trowch tua'r tir at y Llwybr Troed Arfordirol. Croeswch y cae a mynd drwy gât mochyn arall. Dilynwch y llwybr ar hyd y pentir, croeswch y bont droed a pharhau ar y llwybr i Silver Sands / Traeth Llydan 1.8 milltir Dilynwch y Llwybr Troed Arfordirol i'r traeth.

## 2. Traeth Llydan – Tŷ Werl

Ac yna ewch i fyny stepiau 1.9 milltir. Dilynwch y llwybr drwy'r goedwig. Ewch drwy'r gât mochyn at adeiladau fferm adfeiliedig (ar hyn o bryd) o'r enw Bryn y Bar 2.1 milltir. Dilynwch yr arwyddion ar hyd y trac allan i'r ffordd. Cadwch ar y ffordd gan anwybyddu'r Llwybr Troed Arfordirol mewn 3 milltir ar y dde. Trowch tua'r dde yng nghyffordd y ffordd. Ychydig ar ôl mynd heibio Tŷ'n Lôn cymerwch y llwybr troed ar y chwith a'i ddilyn drwy'r caeau a thrwy ardd Tŷ Woods. Cadwch tua'r chwith ar y ffordd yn Llainsybylldir. (Ar y pwynt hwn gallwch barhau i lawr y ffordd yn ôl i'r maes parcio) Droi tua'r dde wrth yr arwydd llwybr troed 3.6 milltir, os ydych yn bwriadu cwblhau'r daith gerdded lawn.

## 3. Tŷ Werl – Traeth Borthwen

Ewch drwy ochr dde'r ardd yn Nhŷ Werl, drwy ddau gae a dwy gât mochyn yna tua'r dde i gyfeiriad cornel y wal. Ewch tuag ochr chwith yr eglwys, ac yna ewch dros y gamfa a thrwy'r gât yn ôl ar y trac 3.9 milltir Trowch tua'r chwith a dilynwch y trac i'r fferm. Ewch drwy'r gât mochyn ar y dde 4.1 milltir Croeswch y cae at y gât mochyn nesaf ac yna cadwch at ochr chwith y cae. Dilynwch y llwybr drwy ddwy gât mochyn arall sy'n dod â chi at y llwybr arfordirol 4.5 milltir Trowch tua'r chwith dros y bont droed a thrwy gât mochyn. Yn awr dilynwch y llwybr gan gymryd gofal, gan fod clogwyni ar y dde a wal uchel ar y chwith. Ewch drwy'r gât mochyn ym mhen draw'r wal yna dilynwch y llwybr, sy'n mynd heibio ffynnon y Santes Gwenfaen, at orsaf gwylwyr y glannau 5.1 milltir. Mae golygfeydd da ar hyd yr arfordir ac ar draws i'r tir mawr. O orsaf gwylwyr y glannau ewch i lawr yr allt, a mynd drwy ddau gae a dwy gât mochyn 5.4 milltir. Dilynwch y llwybr rhwng y tai a thrwy'r gerddi i'r traeth. Croeswch y traeth neu defnyddiwch y llwybr troed ar y chwith yn ôl i'r maes parcio.



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl: LA100023412. 2008
© Crown copyright. All rights reserved: LA100023412. 2008

Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.